## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O'R CYFARFOD PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH 15 CHWEFROR 2022 AM 5.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: C. Andrews (Is-Gadeirydd), P. J. Bevan, A. Collis, W. David, A. Farina-Childs, Mrs T. Parry (Cadeirydd) a J. E. Roberts.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), P. O'Neil (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), R. Roberts (Rheolwr Gwella Busnes), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), E. Pryce (Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Strategaeth, Gwasanaeth Cyflawni Addysg), K. Bevan (Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Cyflawni Addysg), J. Wood (Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Gwella Ysgolion, Gwasanaeth Cyflawni Addysg), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) ac M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg)

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr: Mrs E. M. Aldworth, D. T. Hardacre, D. Havard, M. P. James, Mrs B. A. Jones, B. Miles, Mrs G. D. Oliver, J. Simmonds a Mrs J. Stone.

Aelodau Cyfetholedig: Mrs P. Ireland (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Ddim yn berthnasol |
| 3. | Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:<br><br>Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2022. | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2022 fel cofnod cywir. | 7 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |
| 4. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Nid oedd unrhyw faterion wedi'u galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |
| 5. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. | Gofynnwyd am eglurhad ynghylch Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y | 8 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yn paratoi nodyn briffio i'w ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg.<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor. | |
| 6. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| 7. | Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg 2022-2025. | Ar ôl ystyried yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg:<br><br>(i) Wedi gwneud sylwadau ar gynnwys y Cynllun Busnes fel rhan o'r broses ymgynghori, cyn cyflwyno Cynllun Busnes terfynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i'r Cabinet i'w gymeradwyo.<br><br>(ii) Wedi ystyried y prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu yng Nghaerffili ac ystyried sut y gellir alinio gwasanaethau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r Awdurdod Lleol gan, felly, sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial llawn. | Nid oedd angen pleidleisio. |
| 8. | Asesiad Perfformiad y Gyfadran – Diweddariad Chwe Mis 2021/22. | Adolygodd y Pwyllgor Craffu Addysg Asesiad Perfformiad Cyfadran y Gwasanaethau Addysg a thrafod, herio a chraffu ar y wybodaeth a gynhwysir ynddo. | Nid oedd angen pleidleisio. |

**Cylchrediad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Mercher 23 Chwefror 2022.